# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD GWENER, 19 GORFFENNAF 2019

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr: Medwyn Hughes, Eryl Jones-Williams, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig (Cadeirydd), Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, a Gethin Glyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Glyn Daniels

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Medwyn Hughes fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen oherwydd bod un o'r ymgeiswyr yn gymydog iddo. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y cyfweliad a'r drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27.06.19 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER PENNAETH TAI AC EIDDO

Cadarnhawyd trefn y cyfweliadau gyda'r Aelodau.

Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad ar '*Be ydi'r cyfleoedd a'r bygythiadau rydych chi'n ei weld ar gyfer yr Adran dros y ddwy flynedd nesa a sut ydych chi'n meddwl ymateb iddyn nhw?'*. Ymatebwyd i nifer o gwestiynau dilynol ynghyd a phum cwestiwn ffurfiol.

Gwahoddwyd Mr Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 12.7.19. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r ddau ymgeisydd ynghyd a chanlyniadau profion seicometreg yr ymgeiswyr a gasglwyd gan gwmni Gatenby Sanderson.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Dafydd Gibbard.

**PENDERFYNWYD PENODI MR DAFYDD GIBBARD I'R SWYDD PENNAETH TAI AC EIDDO**

## 7. CYFWELD YMGEISYDD AR GYFER PENNAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Cadarnhawyd trefn y cyfweliadau gyda'r Aelodau.

Cyfwelwyd un ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad ar '*Be ydi'r cyfleoedd a'r bygythiadau rydych chi'n ei weld ar gyfer yr Adran dros y ddwy flynedd nesa a sut ydych chi'n meddwl ymateb iddyn nhw?'*. Ymatebwyd i nifer o gwestiynau dilynol ynghyd a phum cwestiwn ffurfiol.

Gwahoddwyd Mr Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 12.7.19. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiad yr ymgeisydd ynghyd a chanlyniadau'r profion seicometreg a gasglwyd gan gwmni Gatenby Sanderson.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Steffan Jones

**PENDERFYNWYD PENODI MR STEFFAN JONES I'R SWYDD PENNAETH TAI AC EIDDO**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhaglen mentora, mynegodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod yr anghenion cefnogaeth briodol gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu yn ei rôl fel Penaethiaid.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 4.55 y.h.

**CADEIRYDD**